



Eich Cyf: P-05-853
Ein Cyf: KS/03420/18

David John Rowlands AC

government.committee.business@wales.cymru

10 Rhagfyr 2018

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Tachwedd ynghylch Deiseb P-05-853 - Na i Gau Cyffordd 41 o gwbl.

Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priffyrdd ar gyfer y rhwydwaith cefnffyrdd, ffyrdd arbennig sy'n cael eu darparu ganddynt, priffyrdd y maent yn gyfrifol amdanynt o dan unrhyw weithredu, priffyrdd sy'n cael eu trosglwyddo iddynt a phriffyrdd sy'n cael eu hadeiladu ganddynt sydd heb gael eu trosglwyddo i unrhyw awdurdod priffyrdd yng Nghymru. Ble y mae rhannau o'r rhwydwaith priffyrdd a chefnffyrdd yn mynd dros derfynau crynodiadau nitrogen deuocsid (NO₂) ar gyfer Cyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd (2008/50/EC) a Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010, rydym wedi gweithredu'n bwrpasol i ddiogelu iechyd y cyhoedd drwy ddefnyddio'r terfynau cyflymder 50mya dros dro ar unwaith cyn gynted ag y bo ein harchwiliadau wedi dangos y byddai camau o'r fath yn gwella ansawdd yr aer ar unwaith.

Mae pum lleoliad ledled Cymru sy'n mynd dros y lefel uchaf yn y Gyfarwyddeb ar gyfer NO₂. Mae'r rhain yn cynnwys yr M4 rhwng Cyffordd 41 a 42 (Port Talbot) ac mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd gyfreithiol i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd (2008/50/EC) a Rheoliadau Safonau Ansawdd yr Aer (Cymru) 2010.

Mae archwiliadau manwl, gan gynnwys modelu traffig ac ansawdd yr aer gan ddefnyddio'r dull a amlinellwyd yn yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG), wedi'u cwblhau yn ddiweddar i sefydlu'r mesurau fydd yn llwyddo i gydymffurfio ag uchafswm yr NO₂ a ganiateir cyn gynted â phosibl, mewn ffordd sy'n lleihau y cysylltiad ag NO₂ cyn gynted â phosibl, ac sy'n golygu ei bod yn debygol, nid dim ond yn bosibl, y bydd cydymffurfio â'r terfynau.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar hyn o bryd, mae'r posibilrwydd o gau y Ffordd Ymuno tua'r Gorllewin ar Gyffordd 41 yr M4 yn 'Fesur Rhagofalus' sy'n codi o ganfyddiadau Ansawdd Aer arfarniadau Cam 3 yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y gwaith i ben ar 2 Tachwedd 2018 ac mae copi o'r adroddiad sy'n rhoi crynodeb o'r ymatebion i'w gweld ar y dudalen ganlynol ar y we:

<https://beta.gov.wales/sites/default/files/consultations/2018-11/tackling-roadside-nitrogen-dioxide-concentrations-in-wales-welsh-stage-3-summary-of-responses.pdf>.

Hefyd, cyhoeddwyd ein cynllun atodol i gynllun y DU ar gyfer mynd i'r afael â chrynodebiadau nitrogen deuocsid ar ochr y ffordd yn 2017, sy'n cadarnhau y mesurau i fynd i'r afael ag ansawdd yr aer yn y pum lleoliad. Gellir gweld copi o'r cynllun ar: <https://gov.wales/docs/desh/policy/181129-final-supplemental-air-quality-plan-en.pdf>.

Mae crynodebiadau NO₂ ym mhob un o'r 5 lleoliad yn cael eu monitro ar hyn o bryd gan diwbiau lleadaenu a'r bwriad yw monitro parhaus hefyd drwy ddefnyddio dadansoddwyr y dull cyfeirio erbyn y Flwyddyn Newydd. Fel rhan o'r ymarfer monitro, rydym yn edrych ar effaith y terfynau cyflymder ar ansawdd yr aer ac mae'r canlyniadau yn cael eu bwydo i'r archwiliadau a'r modelu er mwyn sefydlu a oes angen rhagor o fesurau i sicrhau bod cydymffurfio yn yr amser byrraf posibl. Dyma ble y bydd angen mesurau rhagofalus o bosibl.

Rwy'n cydnabod bod awydd cryf yn lleol i gadw Cyffordd 41 yr M4 ar agor. Fodd bynnag, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ystyried pob mesur allai leihau y cysylltiad ag NO₂ cyn gynted â phosibl, ac i gynnig opsiynau fel rhan o'r broses ymgynghori er mwyn cydymffurfio â Chyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd (2008/50/EC) a Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010. Yr ymgynghoriad ar arfarniadau Cam 3 yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru oedd y cam diweddaraf yn y broses, ac roedd yr ymgynghoriad hwnnw yn gofyn barn ar y mesurau arfaethedig i leihau y cysylltiad ag NO₂ yn y pum lleoliad yng Nghymru, un ohonynt ym Mhort Talbot.

Er ein bod wedi ystyried y mesurau yn erbyn meini prawf ac amcanion pendant, mae'n rhaid inni ystyried bod dod i gysylltiad â llygredd uchel yn yr aer yn fygythiad i fywyd, ac ystyried nid yn unig bobl sy'n defnyddio'r ffyrdd, ond hefyd y bobl sy'n byw ac yn gweithio ger y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd a'r cyhoedd yn ehangach. Felly ni ellir peidio ag ystyried cau Cyffordd 41 yn y dyfodol ar hyn o bryd.

Os byddwn yn sefydlu bod datblygu 'Mesur Rhagofalus' perthnasol neu unrhyw fesurau eraill i leihau lefelau NO₂ ar y rhan hon o'r M4 yn angenrheidiol, yna byddwn yn cysylltu gyda phob un o'r rhanddeiliaid.

Yn gywir,



Ken Skates AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth
Cabinet Secretary for Economy and Transport